

Grŵp Cyflawni Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghanolfan Addysg Parc Bute, Caerdydd ar 13 Mai 2019

Yn bresennol yn y cyfarfod

Gavin Watkins (GW)	Gareth Thomas (GT)
Estevao Simoes (ES)	Paul Green (PG)
Christianne Glossop (CG)	Amelia Stevens (AS)
Marion Lyons (ML)	Robin Howe (RH)
Robert Smith (RS)	Sian Timms (ST) – Yr Ysgrifenyddiaeth
Ian Jones (IJ)	Marc Alford-Evans (MAE) – Yr Ysgrifenyddiaeth
Ifan Lloyd (IL)	

Ymddiheuriadau

Eifiona Williams (EW)
Catherine Cody (CC)

Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a Chyflwyniadau (GW)

1. Croesawyd holl aelodau'r grŵp a staff cymorth yr Ysgrifenyddiaeth a oedd yn bresennol gan GW.
2. Eglurodd GW mai prif gyfrifoldeb y grŵp yw darparu cyfeiriad ar gyfer polisi'r DU ar atal Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) yng Nghymru, gan weithredu mor effeithiol â phosibl.
3. Gofynnodd GW i'r grŵp geisio sicrhau bod dogfen 'Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd' yn cael ei chyhoeddi erbyn 15 Gorffennaf 2019.

Eitem 2 ar yr Agenda: Y sefyllfa yn gyffredinol – AMR yn fyd-eang ac ar lefel y DU (PG)

4. Cyflwynodd PG drosolwg o'r hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag AMR ar lefel ryngwladol ac ar lefel y DU. Nid yw AMR yn fygythiad newydd i les anifeiliaid, pobl a'r amgylchedd. Pwysleisiodd PG fod AMR yn broblem fyd-eang a bod Llywodraeth y DU wedi blaenoriaethu'r mater.
5. Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) wedi sefydlu canolfan gyfeirio genedlaethol ar gyfer AMR ar y cyd â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) er mwyn helpu i

ddatblygu gallu mewn gwledydd incwm is a chanolig yn Ne Ddwyrain Asia ac Affrica Is-Sahara.

6. Mae strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth y DU wedi'i chynnwys yn y Weledigaeth 20 Mlynedd a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019. Er mwyn mynd i'r afael ag AMR yn y dyfodol, bydd yn bwysig datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r mater a mynd ati i wella bioddiogelwch, atal clefydau a hwsmonaeth anifeiliaid.
7. Gofynnodd IL a ddylai'r grŵp cyflawni ganolbwyntio ar wrthfotigau neu wrthficrobau. Hefyd, gofynnodd AS am ddiheintyddion a'u swyddogaeth.

Eitem 3 ar yr Agenda: Y sefyllfa yn gyffredinol – AMR yng Nghymru – Pwy, Beth, Pryd, Ble a Pham (GW)

8. Eglurodd GW pam ein bod wedi sefydlu grŵp cyflawni Cymru a chynllun gweithredu ar gyfer Cymru. Eglurodd ML y dull gweithredu ym maes iechyd pobl – symud tuag at uchelgais blynyddol yn hytrach na dull gweithredu pum mlynedd. Hefyd, eglurodd ML sut mae'r Bwrdd Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) yn gweithio.
9. Dywedodd GW fod copi drafft o'r ddogfen 'Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd' eisoes wedi'i lofnodi a'i gytuno gan y Gweinidog a'r Prif Swyddog Milfeddygol (CVO). Gofynnwyd i unrhyw aelodau a oedd am wneud newidiadau gyflwyno eu ceisiadau cyn 15 Gorffennaf.

Eitem 4 ar yr Agenda: Cynllun Gweithredu Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd i Gymru (ES)

10. Cafwyd cyflwyniad â sleidiau gan ES yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu AMR yng Nghymru. Eglurodd fod y cynllun gweithredu drafft yn cynnwys pum elfen sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu'r DU. Fe dewiswyd ar y sail eu bod yn briodol i gryfderau Cymru yn hytrach na dilyn blaenoriaethau Cynllun Gweithredu'r DU.
11. Gofynnodd PG gwestiwn am sut i fesur effeithiolrwydd yr elfennau. Cytunodd GW y gallai mynediad i ddata cadarn er mwyn mesur 'iechyd da' neu 'welliant' fod yn anodd i'r grŵp.
12. Siaradodd ES am y defnydd gorau posibl o Wrthficrobau mewn anifeiliaid. Gofynnodd GW am safbwyntiau'r grŵp ynglŷn â derbyn arweiniad annibynnol ar ragnodi ar gyfer anifeiliaid. Awgrymodd AS y dylid mabwysiadu system wedi'i chanoli sy'n debyg i un sydd eisoes yn bodoli.

Eitem 5 ar yr Agenda: Bwrdd Cyflawni Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd – Cytuno'r Cylch Gorchwyl a'r Aelodaeth, Canlyniadau Dymunol y Bwrdd, Cytuno Cynllun Gweithredu Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd i Gymru, Blaenoriaethau Blynyddol sy'n deillio o'r Cynllun a Dulliau Gweithio. (Trafodaeth Grŵp)

13. Dechreuodd ES y drafodaeth trwy awgrymu dulliau o olrhain y defnydd o wrthfotigau mewn anifeiliaid fferm yng Nghymru.
14. Fe aeth y grŵp ati i drafod sut i gyflwyno unrhyw safonau newydd sy'n cael eu hargymell gan y grŵp yn y dyfodol. Mynegodd IJ bryderon am weithwyr amaethyddol yn defnyddio dulliau newydd nad ydynt yn gyfarwydd â nhw. Awgrymodd GT y byddai angen i'r grŵp ganolbwyntio ar argymell dulliau o hyrwyddo'r defnydd o wrthfotigau ar sail angen trwy

ddarparu gwybodaeth well ac eglur i gyfiawnhau defnyddio gwrthfotig ar sail angen. Mynegodd ML bryder am bobl yn prynu meddyginiaethau gwrthfotig ar-lein, gan nodi y byddai hynny'n tanseilio unrhyw fframwaith sy'n olrhain y defnydd o wrthfotigau gan ffermwyr. Awgrymodd ML fod angen sefydlu un llwybr yn unig, ac roedd aelodau'r grŵp yn cytuno.

15. Sut gallwn ni sicrhau ymgysylltiad â milfeddygon anifeiliaid anwes a cheffylau? Mae gan weithwyr meddygol gynghorwyr rhagnodi sy'n mynd allan i siarad â meddygon teulu.
16. Dywedodd GW y gallwn, fel grŵp, nodi bylchau mewn gwybodaeth wrth fynd ymlaen, ac nad oes angen i ni gyfyngu ein hunain i'r data sydd ar gael yn unig. Mae rhywfaint o wylidwriaeth yn hanfodol, ond a yw'n cyflawni ein hamcanion presennol? Hefyd, a ydym yn mesur y cyfuniadau bygiau / cyffuriau a'r clefydau priodol?
17. Awgrymodd GW y gellid llunio cod ymddygiad gyda chymorth Milfeddygon i'w ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid fferm. Dywedodd IJ y dylid cynnwys hyn mewn math o gwrs newydd i gynorthwyo ffermwyr i ddefnyddio gwrthfotigau yn gywir gyda'u da byw. Honnodd IJ y byddai ffermwyr sy'n derbyn arweiniad arbenigol ar y mater hwn yn llwyddo i ddefnyddio gwrthfotigau yn effeithiol trwy hyrwyddo defnydd cyfrifol sydd ei angen i fynd i'r afael ag AMR mewn anifeiliaid a'r amgylchedd. Cytunodd GT mai'r ffordd ymlaen yw addysgu ffermwyr. Honnodd IL fod agwedd llawer o ffermwyr ar y mater hwn eisoes wedi newid. Roedd GW yn cytuno.

Eitem 6 ar yr Agenda: Y Camau Nesaf

18. Gofynnwyd i aelodau'r grŵp ddarllen y cylch gorchwyl a'r Cynllun Gweithredu drafft a chyflwyno unrhyw newidiadau neu argymhellion posibl cyn gynted â phosibl.
19. Dywedodd IJ fod angen i'r cylch gorchwyl nodi amcanion y grŵp yn fwy eglur. Eglurodd GW fod y mater hwn wedi'i drafod eisoes ond teimlwyd y gallai nodi amcanion gyfyngu ar waith y grŵp cyflawni o'r dechrau.
20. Argymhellodd GW y dylid cynnal cyfarfodydd bob chwarter. Gofynnodd ES am eglurder ynglŷn â sut y bydd y grŵp yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol, ac eglurodd GW y byddai pob argymhelliad yn cael ei wneud ar sail consensws.
21. Dywedodd ST fod trefniadau eisoes wedi'u gwneud i sicrhau bod y Gweinidog yn rhyddhau datganiad i'r wasg ynglŷn â sefydlu'r grŵp cyflawni a bod y grŵp eisoes wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf. Bydd negeseuon trydar yn cael eu cyhoeddi wedyn ar dudalennau trydar y Gweinidog a'r Prif Swyddog Milfeddygol. Bydd proffil Trydar y Gweinidog yn arwain darllenwyr ar ei datganiad, a bydd neges drydar y Prif Swyddog Milfeddygol yn cynnwys dolen i dudalen wybodaeth y grŵp ar wefan Llywodraeth Cymru. Atgoffwyd y grŵp y bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi ar 15 Gorffennaf, wythnos cyn y Sioe Frenhinol. Mae gwaith yn parhau ar hyn o bryd i drefnu gweithdy ar AMR mewn anifeiliaid, a dywedodd ST fod croeso i'r aelodau fod yn siaradwyr gwadd yn y digwyddiad.
22. Awgrymodd GW y dylid gwahodd ffermwyr sydd wedi'u henwebu gan undebau ffermwyr Cymru i gyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
23. Awgrymodd CG fod y grŵp yn gallu ystyried llwybrau sydd eisoes wedi'u sefydlu o bosibl mewn gwledydd eraill sy'n cyflwyno cynlluniau rheoli ar gyfer AMR mewn anifeiliaid a'r amgylchedd.

Eitem 7 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall – Dyddiad y cyfarfod nesaf (GW)

- 24.** Aeth y grŵp ati i drafod dyddiad y cyfarfod nesaf. Dosberthir arolwg i'r holl aelodau er mwyn dewis y dyddiad gorau sydd ar gael ym mis Awst 2019.

Eitem 8 ar yr Agenda: Cau a Diolch (CG)

- 25.** Diolchodd CG i'r holl aelodau am fynychu'r cyfarfod ac am gytuno i fod yn rhan o'r grŵp cyflawni. Dywedodd fod sefydlu'r grŵp yn destun cyffro iddi hi a'r Gweinidog a'u bod yn credu y bydd grŵp cyflawni yn cyfrannu at nodau'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid.